# Virginia CROSBIE



Chwefror 2024



Y wybodaeth ddiweddaraf am waith Virginia ar Ynys Môn a San Steffan

virginiacrosbiemp | Y newyddion diweddaraf yn **virginiacrosbie.co.uk**

# Eich Llais wrth wraidd Llywodraeth

### Fy Mlaenoriaethau Dros Ynys Môn

1. Creu Porthladd Rhydd
2. CYFLAWNI NIWCLEAR NEWYDD
3. Swyddi Lleol i Bobl Leol
4. Brwydro am drydedd pont dros y Fenai
5. Annog sero net o Ynys Ynni
6. Gwella mynediad at iechyd

## Yn Darparu Niwclear Newydd




Ymweld â'r Coleg Cenedlaethol ar gyfer Niwclear



Ymweld ag Atomfa Niwclear Olkiluoto, Y Ffindir



Ymweld â Hinkley Point C



Gyda Gwen Parry-Jones o Ynys Môn – Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro Great British Nuclear

**Yn Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Chynllun Niwclear Dinesig newydd, yn nodi dechrau cyfnod niwclear newydd. Byddaf yn parhau i sicrhau y bydd Wylfa yn derbyn sylw yn ystod y cyfnod niwclear newydd hwn – boed hynny ar ffurf adweithyddion modwlar ar raddfa fawr neu fach.**

Mae'r Cynllun Niwclear, ynghyd â lansiad Great British Nuclear – a arweinir gan y Brifweithredwraig Dros Dro, Gwen Parry-Jones – yn nodi'r tro cyntaf i Weinidog Niwclear gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Geidwadol y DU o ran darparu niwclear newydd tu hwnt i unrhyw amheuaeth, gan addo 24 gigawatg (GW) o drydan drwy ynni niwclear erbyn 2050. Mae hyn yn gyfwerth â phedair gwaith ein cynhyrchiad ynni niwclear presennol; a fydd yn cynhyrchu digon o ynni i chwarter o gartrefi Prydain.

Wrth drafod Wylfa, nododd y Prif Weinidog, Rishi Sunak, fod Wylfa yn "lleoliad gwych, gan fod yma botensial i gynhyrchu pŵer gigawat, ond hefyd y gallu i gynnal adweithyddion modwlar bach".

Rwyf wedi ymgyrchu dros ynni niwclear newydd yn Wylfa, gan y byddai'n dod â miloedd o swyddi adeiladu a channoedd o swyddi parhaol, a fyddai'n talu'n dda, i Ynys Môn.

Cafodd Cronfa Galluogi Niwclear y Dyfodol, gwerth £120m ei chyhoeddi yn Wylfa, a bellach caiff y safle ger Cemaes ei gydnabod fel un o'r safleoedd gorau yn y DU ar gyfer niwclear newydd. Rwyf wedi crybwyll Wylfa 60 o weithiau yn Nhŷ'r Cyffredin, wedi arwain trafodaethau yn San Steffan, wedi bod yn rhan o'r Pwyllgor Bil Ynni Niwclear (Cyllid) ac wedi hyrwyddo tacsonomeg werdd yn y maes niwclear. Rwyf yn gadeirydd yr APPG trawsbleidiol ar gyfer Adweithyddion Modwlar Bach (SMRs) a'r Grŵp Cyflawni Niwclear. Cynhaliais Wythnos Niwclear yn San Steffan, gan sôn yn aml am ein huchelgeisiau parthed niwclear newydd yn Wylfa wrth siarad mewn cynadleddau, ac ysgrifennu sawl erthygl ar y pwnc hefyd.

### FFEITHIAU AM WYLFA

1. 9000 o swyddi adeiladu.
2. 900 o swyddi sgil uchel, hirdymor.
3. Gallai gynnal adweithyddion modwlar bach a mawr.
4. Gallu i bweru pob cartref yng Nghymru.
5. Gallu para hyd at 80 o flynyddoedd

## Cysylltwch ynghylch

- Unrhyw broblem neu bryder lleol
- Eich straeon o lwyddiant, arwyr, digwyddiadau neu fusnesau lleol
- Ffyrdd y gallwch fy nghefnogi wrth i mi weithio i ddenu newid cadarnhaol i Ynys Môn
- I ddweud helô a chyflwyno eich hun

### Dewch i ni gydweithio i wella Ynys Môn

Treuliwch ddau funud yn llenwi fy holiadur. Dyma'ch cyfle i ddweud wrthyf yr hyn sy'n bwysig i chi a'ch cymuned **Virginiacrosbie.co.uk/survey**

## COFRESTRWCH EICH DIDDORDEB DROS GAEL NIWCLEAR NEWYDD YN WYLFA

Byddaf yn parhau i ymgyrchu dros niwclear newydd yn Wylfa ar bob cyfle, nes bod y gwaith wedi dechrau.

I ymuno â fy ymgyrch dros niwclear newydd yn Wylfa, cwblhewch yr arolwg hwn: **www.virginiacrosbie.co.uk/nuclear**

Rwyf yn benderfynol o barhau i ddarparu'r cyfleoedd sydd eu hangen ar Ynys Môn er mwyn amddiffyn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a sicrhau bod dyfodol disglair ar gyfer pobl ledled ein hynys – ac mae'r dyfodol hwnnw yma.



Conservatives
Gweithredu dros Ynys Môn

**Ffôn:** 01407 470747
**Ebost:** virginia4ynysmon@gmail.com.
facebook.com/VirginiaCrosbieMP | virginiacrosbie.co.uk

Nid yw arian y trethdalwr wedi cyfrannu at argraffu a dosbarthu'r pamffled hwn

Argraffwyd gan WO Jones (Argraffwyr) Ltd, Llangefni, LL77 7JA

Hyrwyddwyd gan Jenna Evans, ar ran Virginia Crosbie AS, y ddau o Comodore House, Parc Busnes Gogledd Cymru, Abergele, LL22 8LJ

# Rwyf wedi ymrwymo i ddod â swyddi a buddsoddiad i Ynys Môn

**Rwyf wedi croesawu nifer o gwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol wrth iddynt ymweld â'r ynys, ac wedi dangos iddynt y potensial sydd gan safleoedd lleol ar gyfer buddsoddiad a datblygiad drwy Borthladd Rhydd Ynys Môn a niwclear newydd yn Wylfa.**

Mae'r cwmnïau niwclear sydd wedi ymweld ag Wylfa gyda mi yn cynnwys KEPCO, Rolls-Royce, GE-Hitachi, Bechtel ac Westinghouse. Rwyf hefyd wedi croesawu Attaché Ynni yr UDA ar ymweliad i'r safle. Rwyf wedi gweld datblygiad atomfeydd niwclear, a'r effaith maent yn eu cael ar gymunedau lleol gyda fy llygaid fy hun, drwy ymweld â safleoedd yn y DU megis Hinkley C, atomfa Olkiluoto yn Y Ffindir, ac Atomfa Vogtle sydd wrthi'n cael ei adeiladu yn yr UDA.



Ymweld ag Wylfa gyda GE-Hitachi



Ymweld ag Atomfa Vogtel gyda Bechtel a Westinghouse yn yr UDA



Tywys Attaché Ynni yr UDA o amgylch Wylfa

## FY NGWAITH MEWN RHIFAU

**21,700**
O achosion wedi'u hymdrin

**503**
o gyfraniadau llafar yn ystod Achosion Seneddol

**450**
o gwestiynau a llythyrau at Weinidogion

**305**
o sylwadau am Ynys Môn yn y Senedd

**£89m**
o gyllid gan Lywodraeth y DU wedi'i neilltuo i Ynys Môn

**214**
Gweinidog yn ymweld ag Ynys Môn a dau Brif Weinidog

# Helpu fy etholwyr

**Bu i lawer iawn o breswylwyr Brynsiencyn gysylltu â mi parthed cynnig Cyngor Sir Ynys Môn i roi llinellau melyn dwbl ar ddwy ochr Stryd Fawr y pentref. Roedd y preswylwyr yn teimlo'n gryf nad oedd angen hyn, gan ddadlau y byddai'n achosi trafferthion sylweddol i breswylwyr a busnesau lleol.**

Bu i mi ymweld â Brynsiencyn ym mis Rhagfyr, lle bu i mi gyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Cymunedol, ac oddeutu 45 o drigolion lleol i drafod eu pryderon. Yna, ysgrifennais at Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn i holi pam oedd y cynllun hwn yn cael ei gynnig mewn pentref a oedd yn ei wrthwynebu, a hynny er gwaethaf y gwrthwynebiad, a bu i mi ailddatgan eto fod trigolion lleol yn gwrthwynebu'r cynllun yn gryf.

Os hoffech fy nghymorth gyda mater cymunedol, cysylltwch â **virginia4ynysmon@gmail.com.**



*"Roeddwn yn ddiolchgar iawn eich bod wedi cymryd yr amser i ddod draw i Frynsiencyn parthed y llinellau melyn arfaethedig. Yn fy marn i, rydych yn gwneud swydd wych dros Ynys Môn."* **Sue, Brynsiencyn**

*"Yn wir, ni allaf ddiolch digon i chi am ddatrys hyn mor gyflym. Roedd y cyfnod hwn o 9 diwrnod ymysg y mwyaf heriol o'n bywydau ac yn sicr ni fyddai hyn wedi cael ei ddatrys heb eich help."* **Mrs Williams, Amlwch**

*"Rydych chi wedi gwneud mwy i geisio adfywio ffawd Ynys Môn na neb arall yn ystod y 25-30 mlynedd ddiwethaf".* **Alan, Llangoed**

# Eisiau cymryd rhan?

**Rwyf yn gweithio'n galed dros Ynys Môn, ar brosiectau megis Porthladd Rhydd Ynys Môn, sicrhau niwclear newydd ar gyfer Wylfa, datblygu trydydd pwynt croesi dros y Fenai, yn ogystal â chefnogi'r gymuned drwy gael gafael ar gyllid ar gyfer prosiectau megis ffyniant bro Caergybi, datblygu sgiliau, a darpariaeth yr iaith Gymraeg yn Ynys Môn.**

Rwyf wedi codi dros £30,000 ar gyfer elusennau lleol, dathlu dros 50 o Arwyr Cudd Ynys Môn, wedi denu ugain o Weinidogion (gan gynnwys dau Brif Weinidog) i ymweld â'r ynys, ac wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau cymunedol a ffeiriau swyddi.

Rwyf yn caru Ynys Môn ac rwyf eisiau parhau i ddarparu dros bawb yma – waeth sut bu iddynt bleidleisio – ond rwyf angen eich cefnogaeth i wneud hynny. Mae llawer o ffyrdd y gallwch gyfrannu i fy nghadw fel eich AS yn ystod yr Etholiad Cyffredinol nesaf.

Felly, os ydych chi'n cefnogi fy ngwaith dros wella bywydau pobl ar Ynys Môn, ac eisiau i mi barhau, e-bostiwch **virginia4ynysmon@gmail.com** neu ffoniwch 01407 470747.

A hoffech chi gael y newyddion diweddaraf am fy ngwaith dros Ynys Môn?

**Cofrestrwch i dderbyn fy e-gylchlythyr yn rhad ac am ddim yn: virginiacrosbie.co.uk/newsletter**